Mudiad Addysg Gristnogol Cymru
Christian Education Movement Wales

Tymor Yr Hydref 2000

Pris £1.00

Syniadau A.G.

Gellir llungopïo y deunydd yma ar gyfer ei ddefnyddio yn eich Ysgol chi yn unig

Yn ôl y Gyfraith, Cristnogaeth ddylai fod wrth wraidd Addysg Grefyddol, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu ym mhob un o Feysydd Llafur Cytûn Cymru. Gwelir o''r Meysydd Llafur y disgwylir i''r disgyblion ddatblygu''r gallu i ddarganfod a chofnodi gwybodaeth am Gristnogaeth o''r Beibl yn ogystal ag o lawer o ffynonellau eraill. Dylent hefyd allu gwrando ar a gofyn cwestiynau am straeon Beiblaidd i''w hathrawon ac eraill a dylent gael eu hannog i "ddatblygu y gallu a''r awydd i ystyried yn feirniadol syniadau am grefydd".

STORÏAU BEIBLAIDD

Y yw'r Beibl yn Wir?

ATEBWCH Y CWESTIYNAU ISOD, TRWY ROI TIC YN UN O'R BLYCHAU.

	Cywir	Anghywir
1. MAE 10 DARN DEG CEINIOG MEWN £1		
2. 7 – 3 = 4		
3. YR WYDDFA YW'R MYNYDD UCHAF YNG NGHYMRU.		
4. MAE'R LLUN OLAF O FIS MAI'N DDYDD GŴYL Y BANC.		
5. ROEDD DEWI SANT YN BYW AC YN PREGETHU YNG NGHYMRU.		
6. RYDYCH CHI'N MWYNHAU BLAS AFAL, OREN NEU SIOCLED.		
7. RYDYCH CHI'N GALLU COFIO'R HYN A RODDODD FWYAF O BLESER ICHI'R NADOLIG DIWETHAF NEU AR DDYDD EICH PENBLWYDD.		
8. MAE RHYWUN YN EICH CARU AC YN GOFALU AMDANOCH.		
9. RYDYCH CHI'N YMDDIRIED YN EICH FFRIND PENNAF.		
10. TEIMLAD HYFRYD YW MADDAU I'N GILYDD A CHYMODI AR ÔL CWERYLA.		

Rydych wedi nodi bod pob un o'r gosodiadau uchod, naill ai'n gywir neu'n anghywir. Ond beth pe bai rhywun yn gofyn ichi brofi bod eich atebion yn wir?

Edrychwch eto ar y gosodiadau uchod ac fe welwch fod rhai ohonynt yn haws na'i gilydd i'w profi. Fe welwch hefyd fod rhai gosodiadau (6-10) o natur wahanol i'r gweddill; ni ellir defnyddio'r un dull i brofi bod y gosodiadau hyn yn wir.

Mae'r pum gosodiad cyntaf yn perthyn i'w gilydd gan y gellir profi eu bod yn wir trwy gyfrwng pethau o'r ***"tu allan"*** h.y. maent yn bethau y gallwn eu cyfrif, eu mesur neu gallwn brofi a ydynt yn wir ai peidio trwy chwilio am atebion iddynt mewn llyfrau, papurau neu gofnodion.

Ond beth am y pum gosodiad olaf? Gall eich atebion iddynt hwy fod naill ai'n gywir neu anghywir, ond maent i gyd yn ***wir*** am eu bod yn atebion sy'n dod o'r ***"tu mewn"*** o'ch profiad chi eich hun. Rydym hefyd yn gwybod bod y teimladau o brofwn o bryd i'w gilydd, yn wir, ond ni allwn brofi hynny trwy chwilir am atebion iddynt mewn llyfrau. Gwirioneddau "mewnol" ydynt, wedi eu seilio ar ein profiadau.

CWESTIYNAU PLANT

Ydi'r stori'n wir?
Ydych chi'n credu hynny?
Ddigwyddodd hynny go iawn?
Pam fod pethau tebyg ddim yn digwydd heddiw?
Mae hwnna'n debyg i Siôn Corn.
Mae fy mrawd bach yn credu hynny, ac roeddwn innau pan o'n i'n fach.

SYLWADAU

Ydy'r disgyblion ar adegau yn ymateb gyda sylwadau tebyg mewn gwersi Addysg Grefyddol? Fe ddylen nhw, gan y dylai ein swydd fel athrawon helpu ein disgyblion i feddwl yn feirniadol. - hyd yn oed y plant ieuengaf, gan fod rhaid iddynt i gyd ddysgu fod ganddynt hawl i ddweud "na" wrth bobl mewn oed mewn achlysuron arbennig. Yn fy marn i, mae Addysg Grefyddol yn fwy nac unrhyw bwnc arall yn rhoi'r cyd-destun orau i bobl ifanc feddwl drostynt eu hunain.

SUT MAE YMATEB?

Yn Syniadau AG y tymor yma, ac yn y ddau i ddilyn, rwy'n anelu at awgrymu dulliau a all helpu disgyblion, o unrhyw oed, i ddeall bod y cwestiynau uchod yn ddilys ac yn werth eu gofyn.. Mae fy mhrofiad dysgu i mewn ysgolion uwchradd ond credaf y gall yr athrawes/athro profiadol a sensitif addasu'r syniadau hyn i'w defnyddio gyda disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, ac efallai CA1 hefyd. Os nad ydych yn cytuno gadewch imi wybod - Hywel I Evans, Llety'r Adar, CONWY LL32 8UA.

STORI 1

Beth am ddechrau gyda dameg ond, oherwydd problemau gyda'r gair "dameg," fe ddefnyddiaf y gair "stori". Stori y Samariad Trugarog sydd yn cael ei ddefnyddio mewn gwersi ac mewn gwasanaethau addoli ar y cyd i ddisgyblion o bob oedran - Luc 10 v25-37.

Dylid pwysleisio cyd-destun y stori - ateb Iesu i gwestiwn yr athro cyfraith. Dylai trafodaeth yn y dosbarth orffen gyda chytundeb ynglyn ag ystyr y stori, ac efallai y dylid rhoi'r ystyr mewn brawddeg ar y bwrdd du - "Cymydog yw rhywun sy'n ... " Bydd amseru a chyfeiriad y drafodaeth ddilynol yn dibynnu ar nodau'r athrawes ac ar aeddfedrwydd y plant ond yn aml iawn anwybyddir y cwestiynau canlynol.



CWESTIYNAU I'W GOFYN

Roedd Iesu yn defnyddio'r stori er mwyn esbonio ystyr y gyfraith Iddewig. Ydych chi'n credu fod y cyfreithiwr yn hapus gyda'r ateb?

Nid ydyw dilynwyr Iesu yn ein dyddiau ni - "Cristnogion" - yn derbyn y Gyfraith Iddewig i gyd, er enghraifft eu deddfau am fwyd. A ddylai Cristnogion dderbyn y syniadau sydd yn y stori hon?

Ydych chi'n meddwl bod pobl o grefyddau eraill, er enghraifft, Muslemiaid neu Siciaid, yn gweld gwerth yn y stori hon?

Mae llawer o bobl heddiw nad ydynt yn arddel unrhyw grefydd - ydych chi'n meddwl y byddent hwy yn gweld gwerth yn y stori hon?

STORI 2

Stori arall a all gyfrannu yn effeithiol at y thema yw stori y ddau ddyledwr yn Efengyl Luc 7, 36-50. Unwaith eto mae'n hanfodol ei gyflwyno yn ei gyd-destun - mae Iesu wedi derbyn gwahoddiad Simon y Pharisead i bryd o fwyd yn ei dŷ ac mae gwraig sy'n bechadures yn eneinio ei draed gydag enaint.

Mae Iesu yn adrodd y stori wrth Simon ac mae'r stori yn diweddu, fel stori'r Samariad Trugarog, gyda chwestiwn, "Pa un fydd yn ei garu fwy?" Ateb Simon yw, "Fe dybiwn i mai'r un y diddymwyd y ddyled fwyaf iddo". Derbyniodd Iesu yr ateb a defnyddiodd yr ateb i dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y diffyg croeso a gafodd gan Simon a chynhesrwydd ymateb y wraig.

Unwaith eto gellir gofyn i'r dosbarth drafod ystyr y stori a cheisio dyfalu beth oedd ymateb Simon iddo.

CWESTIYNAU I'W GOFYN

Beth ydych yn credu mae Cristnogion heddiw yn ei feddwl o'r stori? Ai digwyddiad diddorol ym mywyd Iesu 2000 o flynyddoedd yn ôl ydyw yn unig neu oes ganddo ystyr mwy cyfoes?

Oes ganddo ddiddordeb a gwerth i bobl nad ydynt yn Gristnogion?

A fyddai pobl o grefyddau eraill, er enghraifft Iddewon, Muslemiaid neu Siciaid, yn credu bod y stori yn berthnasol ac o werth?

SYLWADAU

Awgrymaf bod yr athro'n creu cyfle i'r disgyblion herio ateb Simon. Ydy e'n wir fod gwerthfawrogiad yn ddibynnol ar werth ariannol y rhodd? Mae ymateb Simon "Fe dybiwn i ..." yn dangos nad yw yntau yn sicr o ddilysrwydd ei ateb ond dengys ymateb Iesu mai dyna'r ateb yr oedd ei eisiau neu a ddisgwyliai gan Simon.

STORI 3



Mae dameg yr oenig fechan a adroddwyd gan Nathan y proffwyd wrth Dafydd Frenin yn 2 Sam 11 yn enghraifft ardderchog arall ac yn addas ar gyfer unrhyw adeg yng nghyfnod allweddol 3 neu 4 pan mae amser yn caniatau sylw teilwng i'r cyd-destun - godineb Dafydd gyda Bath-sheba a'i gynllwyn llwyddiannus i ladd Ureias yr Hethiad.

Yr un fath o faterion sy'n codi yma fel yn y ddau stori blaenorol ond nid oes rhaid i Nathan ofyn cwestiwn gan fod Dafydd yn torri ar ei draws gan ddweud bod y dyn cyfoethog a gymerodd yr oenig yn haeddu marw.

CWESTIYNAU I'W GOFYN

A oedd Dafydd yn deall y stori? Nac oedd, wrth wrando arno, ond agorwyd ei lygaid gan "Ti yw''r dyn" Nathan, a'r esboniad, nes iddo, yn adnod 13, gyfaddef "Yr wyf wedi pechu yn erbyn yr ARGLWYDD"

Cymharol ychydig o amser sydd i drafod yr oblygiadau mewn ystafell ddosbarth o ganlyniad i'r llwyth o wybodaeth gefndirol sydd ei angen i ddeall y stori. Serch hynny, mae'n werth tynnu sylw at y parch annisgwyl oedd gan frenhinoedd, hyd yn oed brenhinoedd teyrn, yn Israel tuag at broffwydi'r ARGLWYDD - hyd yn oed yn derbyn ganddynt gerydd cyhoeddus, fel cafodd Ahab gan Eleias ar ôl marwolaeth Naboth, ac Herod Antipas gan Ioan Fedyddiwr parthed ei berthynas gydag Herodias (Marc 6). Mae'n werth hefyd tynnu sylw at onestrwydd yr awdur - er gwaethaf ei barch aruthrol tuag at Dafydd, yr arwr cenedlaethol, mae''n croniclo manylion y digwyddiad gwarthus hwn.

Y CWESTIYNAU SYLFAENOL

Ydy'r straeon yn wir? A ddigwyddodd y pethau go iawn?? A oedd athro'r gyfraith yn credu mai digwyddiad oedd y stori am y Samariad yn helpu'r dyn a syrthiodd ymysg lladron? Oedd Simon yn credu bod y benthyciwr wedi maddau i'w dyledwyr, fel mater o ffaith? Oedd Dafydd Frenin yn credu bod y dyn cyfoethog wedi cymeryd oenig y dyn tlawd? Oedd, yn sicr, gan ei fod yn dymuno cosbi'r dyn, a chosb farwolaeth. Fe ddichon bod y tri ohonynt yn credu eu bod yn gwrando ar hanesion ffeithiol cywir - wedi'r cyfan nid oes ddim byd anhygoel yn yr un ohonynt.

Oes gwerth parhaus i'r tri stori? Oes, mae'n siwr. Da o beth yw i bobl geisio bod yn gymdogion da, yn groesawus i'w cymdogion, ac i beidio a bod yn drahaus, gan gyflawni godineb a llofruddiaeth.

Ai digwyddiadau hanesyddol sydd yn y tri stori? A all y stori fod yn wir er na ddigwyddodd y peth go iawn?? Oes ots os mai digwyddiadau oeddynt - neu dim ond storïau - a gawsant eu llunio gan Iesu, neu gan Nathan?? A fyddai hanes y Samariad Trugarog, er enghraifft, wedi bod yn fwy effeithiol neu'n fwy gwerthfawr, pe byddai wedi digwydd ar ryw ddiwrnod arbennig, a ninnau'n gwybod enw'r dyn a gafodd ei hanner ladd, ac enw'r Lefiad, yr offeiriad a'r Samariad? Beth pe byddai'r athro cyfraith, yn lle ateb cwestiwn Iesu, wedi gofyn am ddyddiad y digwyddiad, ac enw'r tystion ...

Os na ddigwyddodd y pethau sy'n cael eu disgrifio yn y storïau - ac yn sicr **ni** ddigwyddodd y pethau roedd Nathan yn eu disgrifio - a fyddai hynny'n newid gwerth neu ystyr y storïau? A fyddai yn amharu ar "wirionedd" y storïau??

A yw'n wir dweud fod stori yn gallu cyfleu neges mor effeithiol a digwyddiad? - ac nid ydyw''r ffaith mai stori yn unig yw o anghenraid yn rwystr i'r gwirionedd mae'n ceisio ei ddysgu?

Os oes gennych amser i drafod y materion hyn ymhellach beth am wahodd eich disgyblion i ystyried hanes Iesu yn melltithio'r ffigysbren (Marc 11. 13-14 a 20-21) (Onid annheg melltithio coeden am beidio a dod a ffrwyth ar adeg o'r flwyddyn pan na cheir ffrwyth, beth bynnag?) ochr yn ochr a dameg y ffigysbren anffrwythlon yn Luc 13.6. Yn ystod fy mlwyddyn cyntaf fel athro cefais fy synnu gan ddisgybl oedd yn ceisio ysgrifennu hanes y Samariad Trugarog yn ei eiriau ei hun. Ar ôl nodi bod yr offeiriad a'r Lefiad wedi mynd yr ochr arall heibio dywedodd, "Yna daeth Iesu a tosturiodd wrtho ..." Roedd y plentyn wedi newid stori a ddywedodd Iesu i fod yn weithred a gyflawnodd Iesu. Ai dyna sydd wedi digwydd i'r ffigysbren?.

ADNODDAU

Cyfieithiadau diweddar - e e Duw Ar Waith, J B Phillips ayyb.
Meysydd Llafur Cytun gwahanol Awdurdodau.
Deunyddiau gan MAG, Cymdeithas y Beibl, Cyhoeddiadau'r Gair ayyb.

ADNODDAU MAGC

Gwybodaeth a syniadau pellach ar gael ym Mhecynnau Adnoddau MAGC:

Prisiau (yn cynnwys cludiant): RE and STORY @ £11.00 (ar gael yn gynnar yn 2001)

GELLIR LLUNGOPÏO Y DEUNYDD YMA AR GYFER EI DDEFNYDDIO YN EICH YSGOL CHI YN UNIG

Mae disgowntiau ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu, ac i fyfyrwyr

Catalogau Adnoddau a Phecynnau, ynghyd â chopïau ychwanegol o Syniadau A.G. ar gael oddi wrth:

Ann Bonner-Steel, Adnoddau MAGC

Craig Y Nos, CAERSWS SY17 5DT (Ffôn/Ffacs: 01686-688227 Symudol: 07811-703889)

© MAGC 2000